**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1197
Ein cyf/Our ref EM/14177/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

20 Rhagfyr 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Tachwedd ynglŷn â Deiseb P-06-1197 ynghylch cyflwyno rhaglen sgrinio'r galon i bob person 11 i 35 oed yng Nghymru sy'n cynrychioli ei ysgol neu ei sir mewn chwaraeon. Darllenais sylwadau pellach y deisebydd ar y mater hwn.

Fel yr esboniais yn fy ymateb blaenorol, caiff rhaglenni sgrinio'r boblogaeth eu hargymell gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU ar sail tystiolaeth y gallant achub bywydau drwy adnabod risg yn gynnar. Fodd bynnag, caiff hyn ei gydbwyso yn erbyn y posibilrwydd y gallant achosi niwed drwy adnabod ffactorau risg na fuasent byth fel arall yn datblygu yn gyflwr neu'n gymhlethdod difrifol. Byddai hyn yn arwain at bryderon iechyd diangen, neu'n arwain at unigolion yn cael eu heithrio rhag ymarfer corff. Gall rhaglenni sgrinio greu canlyniadau negyddol ffug, felly nid ydynt yn sicrhau amddiffyniad.

Nid yw cael canlyniad risg isel yn atal person rhag datblygu'r cyflwr yn ddiweddarach. Dylid ond cynnig rhaglenni sgrinio'r boblogaeth pan fo tystiolaeth gadarn, ac o safon uchel sy'n cadarnhau y byddai'r profion sgrinio yn sicrhau mwy o ddaioni na drwg.

Mae profion sgrinio i atal Marwolaeth Sydyn y Galon ymhlith unigolion 12 i 39 oed wedi'u hystyried gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU, ac oherwydd y rhesymau uchod nid ydynt yn cael eu hargymell, ac o ganlyniad, nid yw profion sgrinio'r galon yn cael eu darparu yn y DU.

Mae'n bwysig nodi hefyd nad yw pob sefydliad yn cefnogi profion sgrinio'r galon i bawb oherwydd gall canlyniadau sgrinio camarweiniol achosi goblygiadau a allai fod yn niweidiol i athletwyr ifanc a'u teuluoedd. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi gormod o driniaeth a chamddiagnosis a all effeithio athletwyr drwy gydol eu bywydau.

Er nad yw profion sgrinio'r boblogaeth gyfan yn cael eu hystyried yn fuddiol, dylid cynnig asesiadau clinigol unigol i deuluoedd unigolion sydd wedi dioddef Marwolaeth Sydyn y Galon, er mwyn asesu eu risg. Mae hyn yn fodd o raeadru'r broses o ganfod achosion

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

mewn poblogaeth sy’n wynebu risg uwch yn hytrach na sgrinio’r boblogaeth gyfan sy’n asymptomatig. Yn ogystal, dylai pobl ifanc sydd â symptomau neu bryderon, yn enwedig os ydynt yn gorfforol egnïol iawn, siarad â'u meddyg teulu a fydd yn gallu eu cynghori yn briodol.

Cynigir opsiwn gan y Cyngor Ymchwil Feddygol ar gyfer cyllido astudiaethau carfan hydredol – lle bydd rhaid i'r academyddion sy'n gwneud cais gyflwyno'r achos. Byddai angen cysylltu’n uniongyrchol â'r Cyngor Ymchwil Feddygol i gael rhagor o wybodaeth: [https://mrc.ukri.org/about/our-structure/strategy-board-overview-groups/population-health-sciences-group/longitudinal-population-studies-strategic-advisory-panel/](https://mrc.ukri.org/about/our-structure/strategy-board-overview-groups/population-health-sciences-group/longitudinal-population-studies-strategic-advisory-panel/)

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services